Adeiladwaith ac Economi Atgynhyrchiol Cymru

Papur Briffio Polisi 2026

CRYNODEB

Cynhaliodd Cymru Wledig LPIP Rural Wales ymchwil gweithredol cyfranogol i ymyriadau ymarferol a allai fynd i'r afael â'r heriau mewn recriwtio a chadw yn sector adeiladwaith Cymru wledig. Cynhaliwyd tri gweithdy ar-lein gyda rhyw 30 o gyfranogwyr ym mhob un. Dewiswyd y cyfranogwyr ar sail eu gwybodaeth a'u profiad o'r sector. Adolygodd y grŵp statws cyfredol sector adeiladwaith cefn gwlad Cymru, a datblygu pedwar o gynigion i ymdrin â'i ddiffyg llafur. Mae'r materion cyffredinol sy'n codi dro ar ôl tro yn cynnwys rhwystrau i hyfforddiant a phrentisiaethau hygyrch sydd yn mynd i'r afael ag ôl-osod, cynnal a chadw ac adeiladu o'r newydd; ymdrin â'r anghydbwysedd rhwng y rhywiau yn y sector adeiladwaith drwyddo draw; ac ymwneud â newydd-ddyfodiaid nad ydynt ar hyn o bryd mewn addysg..
Mae'r cynigion yn pwysleisio pwysigrwydd bod yn gliriach a rhoi cyhoeddusrwydd i'r galw presennol ac at y dyfodol yn y sector, a hwyluso mynediad at hyfforddiant, prentisiaethau a phrofiad gwaith i newydd-ddyfodiaid. Ar sail canlyniadau'r gweithdai, gwnawn yr argymhellion canlynol:

- Datblygu gwybodaeth sydd yn glir, yn hawdd ei gyrchu ac sydd ar gael i'r cyhoedd am brosiectau sydd ar y gweill er mwyn rhoi sicrwydd ynghylch gobeithion cyfredol ac yn y dyfodol am waith ledled y sector adeiladwaith, i symbylu buddsoddi a thwf mewn busnesau lleol.
- Datblygu porthol gwybodaeth a gynhelir gan Lywodraeth Cymru i grefftwyr a pherchenogion tai fel ei gilydd, i amlygu'r manteision a'r cyfleoedd ddaw o gynaliadwyedd ac ôl-osod eiddo.
- Gweithio gydag addysg, busnesau a chanolfannau gwaith i sicrhau bod cyfleoedd hyfforddi i newydd-ddyfodiaid yn hygyrch, ac yn cyflymu camau hyfforddeion i waith yn y sector.
- Darparu gwybodaeth hygyrch sydd yn ysbrydoli a chyfleoedd hyfforddi sy'n tynnu sylw at ehangder y cyfleoedd am yrfa sydd ar gael ledled y sector gan gynnwys dylunio, ynni adnewyddol, ôl-osod, a chynnal a chadw.

CEFNDIR

Amcanion yr Astudiaeth

Mae'r astudiaeth hon yn rhan o waith ehangach gan Cymru Wledig LPIP Rural Wales. Ei nod oedd cyd-ddylunio atebion ymarferol i wrthweithio'r diffyg yng ngweithlu sector adeiladwaith y Gymru wledig ac ymdrin â'r heriau mae hyn yn greu i economi sylfaen Cymru.

Cyd-destun Polisi

Mae adeiladwaith yn werth bron i £8 biliwn i economi Cymru ac y mae'n cyflogi bron i 9% o weithlu Cymru. Mae tai yn cyfrif am 1/3 o sector adeiladwaith Cymru, gan gynnwys y sectorau preifat a chyhoeddus, a thrwsio a chynnal a chadw. Dywed y CITB fod ar Gymru angen 2,200 o weithwyr newydd yn ychwanegol bob blwyddyn hyd at 2028 i gwrdd ag anghenion y sector. Ar y llaw arall, mae colli prentisiaethau a gwasanaethau ategol fel aseswyr, tiwtoriaid a chyflogwyr i'w derbyn, yn atal yr ehangu hwn. Mae hyn yn effeithio ar allu Cymru i godi eiddo newydd yn ogystal ag ôl-osod y stoc tai presennol, sy'n hollbwysig er mwyn ymdrin â sero net, tlodi tanwydd, a lles.

Sail y Dystiolaeth

Cynhaliodd Cymru Wledig LPIP dri gweithdy hanner-diwrnod ar-lein o Fai - Gorffennaf 2025. Yr oedd tua 30 o gyfranogwyr ym mhob gweithdy, o bob cwr o Gymru. Yr oedd y cyfranogwyr yn cynrychioli llywodraeth leol, Llywodraeth Cymru, partneriaethau sgiliau rhanbarthol, AB, AU, mudiadau'r trydydd sector, byrddau diwydiant a busnesau preifat. Ymchwiliodd y gweithdai i statws cyfredol y sector adeiladwaith yng Nghymru, gan gyd-

ddylunio ymyriadau posib allai gefnogi mwy o recriwtio a chryfhau cadw yn y sector. Yna cafwyd cyfweliadau gyda'r cyfranogwyr a rhanddeiliaid perthnasol eraill i ymchwilio ymhellach i weld sut y byddai eu hawgrymiadau yn sbarduno gwelliannau yn y sector.

CANFYDDIADAU ALLWEDDOL

Ymwneud â chyflenwad a galw i hybu twf yn y sector

Nododd y sawl a gymerodd ran yn y gweithdai y byddai gwell eglurder a data hygyrch am gyfleoedd cyfredol ac yn y dyfodol am waith ledled y sector yn annog newydd-ddyfodiaid i ymuno â'r sector. Gallai hyn hefyd annog y gweithwyr presennol i fuddsoddi mewn hyfforddiant a thyfu eu busnesau. Ar hyn o bryd, nid oes sicrwydd ynghylch prosiectau tymor byr i ganolig a'r cyfleoedd am waith fyddai'n cael eu cynhyrchu ganddynt. Byddai gwybodaeth a chanllawiau clir am brosiectau sydd ar y gweill a deddfwriaeth am ddeddfwriaeth, effeithlonrwydd ynni a thechnolegau newydd mewn adeiladwaith yn cefnogi twf a chynnydd mewn sgiliau yn y sector.

Ymdrin ag anghenion y sector ynghylch ôl-osod a chynnal a chadw

Mae'r rhan fwyaf o'r gwaith a wneir yn sector adeiladwaith Cymru yn ymwneud â chynnal a chadw, trwsio ac ôl-osod y stoc tai presennol. Codwyd llawer o'r adeiladau hyn cyn 1919, ac y mae ganddynt ofynion penodol er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cynnal a'u cadw gyda sgiliau a deunyddiau priodol. Pwysleisiodd cyfranogwyr y gweithdai bwysigrwydd agwedd 'deunydd yn gyntaf', yn hytrach na dim ond dibynnu ar ychwanegiadau technolegol neu faterol i adeiladau cyfredol.

Ymateb i anghenion penodol meicro-fusnesau a BBaCh

Mae sector adeiladwaith Cymru wledig ar hyn o bryd yn bennaf yn feicro-fusnesau a BBaCh. Mae'r gwaith yn y sector yn aml yn golygu ystod eang o sgiliau a thechnolegau, o grefftwaith traddodiadol i osod a chynnal ffynonellau ynni blaengar. Rhaid i feicro-fusnesau allu cyrchu hyfforddiant achrededig fforddiadwy sy'n sicr o arwain at les i'w busnesau. Mae anodd iawn i fusnesau bychain ddatblygu eu gallu yn fewnol i ymdrin â'r ehangder sgiliau hyn, a phasio'r wybodaeth ymlaen i brentisiaid a'r rhai sy'n chwilio am brofiad gwaith. Mae hyn yn creu heriau i'r gweithlu presennol a hefyd yn creu rhwystrau i hyfforddi gweithwyr newydd yn y sector.

Rhaid i gyfleoedd hyfforddi fod yn fwy holistig, hygyrch, ac ymdrin ag anghydraddoldeb rhwng y rhywiau

Soniodd y sawl fu yn y gweithdai am rwystrau sylweddol i newydd-ddyfodiaid o ran cyrchu cyfleoedd am hyfforddiant. Yr oedd y rhain wedi eu gwreiddio mewn cysylltiadau trafnidiaeth gwael, gyda rhai myfyrwyr yn methu cyrchu a/neu fforddio cludiant i gyfleoedd hyfforddiant. Yr oedd rhai myfyrwyr hefyd yn cael trafferth fforddio dillad gwaith priodol neu fwyd tra'r oeddent yn hyfforddi. Hefyd, mae angen mwy o fenywod yn y sector. Pwysleisiodd y sawl a fynychodd y gweithdai dro ar ôl tro bwysigrwydd annog menywod i ddod i mewn i'r sector, gan nodi fod datblygiadau mewn dulliau gweithio a deunyddiau, ynghyd ag amrywiaeth yr is-sectorau mewn adeiladwaith, yn cynnig mwy o gyfleoedd i amrywiaeth o newydd-ddyfodiaid.

Nododd y sawl a fynychodd y gweithdai hefyd fod tiwtoriaid profiadol yn aml yn methu ag ymdrin ag anghenion dysgu a chymdeithasol ychwanegol myfyrwyr y tu hwnt i'r sgiliau penodol oedd eu hangen yn y sector adeiladwaith. Byddai cynyddu gallu'r hyfforddwyr yn caniatáu iddynt aros yn y maes hyfforddi a phasio eu sgiliau ymlaen i'r genhedlaeth nesaf o weithwyr adeiladu

ARGYMHELLION

O'r canfyddiadau uchod, dyma rai o'r argymhellion a gynigiwn i Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol:

Datblygu porthol gwybodaeth hygyrch am gyfleoedd adeiladu o'r newydd ac ôl-osod

Hyrwyddo ôl-osod a chynnal a chadw: Byddai newydd-ddyfodiaid a'r sawl sydd eisoes yn gweithio mewn adeiladwaith ar eu hennill petai Llywodraeth Cymru yn hyrwyddo'r galw am grefftwyr medrus, a'r cyfle am yrfaoedd yn ymwneud a chynaliadwyedd. Byddai perchenogion tai yn elwa o 'siop un stop' am wybodaeth ynghylch manteision ôl-osod, a sut i ddod o hyd i grefftwyr medrus i wneud y gwaith. Gwreiddio cyfleoedd am waith a hyfforddiant i newydd-ddyfodiaid yng nghynlluniau'r llywodraeth i wella effeithlonrwydd ynni cartrefi.

Rhoi gwybodaeth glir am brosiectau sydd yn ymddangos: Gall mwy o eglurder ynghylch datblygiadau sydd ar y gweill gefnogi'r sector adeiladwaith i gynllunio am gyfleoedd yn awr ac yn y dyfodol. Mae hyn yn cynnwys ennill sgiliau newydd a chyflogi gweithwyr newydd. Byddai hyn yn cryfhau ac yn tyfu gallu gweithlu Cymru wledig.

Datblygu a hyrwyddo hyfforddiant cyflwyno i fenywod yn y sector adeiladwaith

Cynnig hyfforddiant lefel-mynediad i fenywod yn unig.: Cafwyd bod darparu hyfforddiant cychwynnol lefel-mynediad i fenywod yn unig yn magu hyder a gallu menywod i ymwneud wedyn â sesiynau hyfforddi cymysg. Mae hyn yn gwneud y sector yn fwy amrywiol ac yn cynyddu nifer y newydd-ddyfodiaid yn gyffredinol.

Tynnu sylw at newidiadau yn y sector adeiladwaith ac ehangder y cyfleoedd: Mae prosesau a thechnolegau newydd yn ogystal â dulliau fel Passivhaus, yn golygu bod gwaith mewn adeiladwaith yn fwy hygyrch i bobl o alluoedd corfforol gwahanol. Mae is-sectorau ar gael hefyd sy'n rhoi mwy o hyblygrwydd personol a phroffesiynol, fel y gall newydd-ddyfodiaid deilwrio cydbwysedd gwaith a bywyd sy'n caniatáu am wahanol alwadau.

Adeiladu'r gallu i gynnig hyfforddiant, prentisiaethau a phrofiad gwaith

Cynnig cyfleoedd hyfforddi eang ac integredig: Byddai'r sawl allai gymryd rhan yn y sector, yn ogystal â myfyrwyr a'u teuluoedd, yn elwa o well dealltwriaeth o'r amrywiaeth o gyfleoedd sydd ar gael yn y sector a swyddi technegol a phroffesiynol cysylltiedig. Bydd profiad gwaith ymarferol sy'n cynnwys amrywiaeth o sgiliau perthnasol i'r sector yn gadael i newydd-ddyfodiaid ddeall yr holl gyfleoedd a hefyd bwysigrwydd gwaith tîm a'r gwahanol sgiliau sydd ar gael mewn adeiladwaith. Gall hybu'r sector trwy ffyrdd newydd roi i bobl ifanc y wybodaeth i wneud gwell dewisiadau am eu haddysg a'u gyrfaoedd. Rhaid i swyddi technegol a phroffesiynol, yn ogystal â rolau traddodiadol y fasnachol, gael eu hyrwyddo i fyfyrwyr coleg, Chweched Dosbarth ac AB, yn ogystal â'r rhai nad ydynt mewn addysg na hyfforddiant.

Cefnogi meicro-fusnesau a BBaCh: Y rhain yw asgwrn cefn sector adeiladwaith y Gymru wledig, ac eto maent yn wynebu rhwystrau ariannol a logistaidd penodol o ran cynnig prentisiaethau a phrofiad gwaith i newydd-ddyfodiaid. Gall cefnogaeth weinyddol ac ariannol i feicro-fusnesau hwyluso'r broses o gynnig cyfleoedd y mae mawr eu hangen i'r genhedlaeth nesaf o weithwyr y sector adeiladwaith.

Hyfforddi'r hyfforddwyr: Mae ar aelodau presennol y sector adeiladwaith angen hyfforddiant a chefnogaeth i lwyddo i ateb anghenion a heriau cymdeithasol-economaidd myfyrwyr sydd yn aml mor amrywiol, er mwyn sicrhau bod tiwtoriaid yna ros mewn AB ac yn pasio eu sgiliau ymlaen. Gwreiddio sgiliau a hyfforddiant galwedigaethol mewn cynlluniau newydd i raglen ysgolion Cymunedol a Mwy, sydd â'r nod o roi gwell cefnogaeth i iechyd meddwl a lles dysgwyr.

GWYBODAETH AM Y PROSIECT

Ymchwilwyr

Sefydliad Ymchwil Cefn Gwlad a Chymuned, Prifysgol Aberystwyth

Darllen pellach

Mae modd llawrlwytho adroddiad llawn y prosiect o www.lpip.cymru

https://careerswales.gov.wales/sites/default/files/images/the-adeiladwaith-industry-in-wales-november-22.pdf

https://www.citb.co.uk/media/edsoltu2/csn-lmi-wales.pdf

https://assets.publishing.service.gov.uk/media/5a7b7ea140f0b62826a03f2c/bis-13-955-adeiladwaith-2025-industrial-strategy.pdf

https://senedd.wales/media/q3vcgmmp/cr-ld15695-e.pdf

Am fwy o wybodaeth

Cysylltwch â: Dr. Siobhan Maderson, sim14@aber.ac.uk

Cynhyrchwyd yr ymchwil yr adroddir amdano yn y Papur Briffio Polisi hwn fel rhan o Gymru Wledig LPIP Rural Wales, Partneriaeth Polisi ac Arloesedd Lleol Cymru Wledig, a gyllidir gan UKRI, corff cyllido ymchwil y Llywodraeth. Nod Cymru Wledig LPIP Rural Wales yw cryfhau'r sylfaen o dystiolaeth i lunio polisïau a chyflwyno'n effeithio i Gymru Wledig, ymchwilio a phrofi atebion arloesol i heriau polisi, a rhoi grym i gymunedau ymdrin â phryderon lleol, gan weithio tuag at y nod o economi lles cynhwysol a chynaliadwy yng nghefn gwlad Cymru. Mae. Cymru Wledig LPIP Rural Wales yn cael ei gyd-gordio gan Brifysgol Aberystwyth, gyda'r partneriaid, Prifysgol Bangor, Prifysgol Caerdydd, y Sefydliad Ymchwil Cefn Gwlad a Chymuned ym Mhrifysgol Caerloyw, Canolfan y Dechnoleg Amgen, Together for Change, Antur Cymru,

Datblygiadau Egni Gwledig (DEG), Represent Us Rural, Iechyd a Gofal Gwledig Cymru, a Sgema. Mae mwy o wybodaeth yn www.lpip.cymru , neu trwy gysylltu ag lpip@aber.ac.uk